# Tendrau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

26 Gorffennaf 2017

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 5 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn:

*Byddwn yn ddiolchgar iawn pe baech, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn rhoi manylion y cytundeb(au) fframwaith/contract(au) a ganlyn ataf:*

1. *Cyflenwyr a wnaeth gais i gael eu cynnwys ym mhob un o'r fframweithiau/contractau isod gan nodi a fu eu holiaduron cyn-gymhwyso yn llwyddiannus/aflwyddiannus ac a gawsant wahoddiad i dendro.**
2. *Gwerthoedd contract pob fframwaith/contract (ac unrhyw is-lot), hyd yma yn ystod y flwyddyn*
3. *Dyddiad cychwyn a hyd y fframwaith*
4. *A oes cymal i ymestyn y fframwaith/contract ac, os felly, beth yw hyd yr estyniad?*
5. *A wnaed penderfyniad eto ynghylch ymestyn neu adnewyddu'r fframwaith(fframweithiau)/contract(au) ai peidio?*

**Er eglurder, mae manylion y cyflenwyr llwyddiannus ac aflwyddiannus yn cael eu cadw gan 7House, a hynny'n gwbl gyfrinachol. Mae'r manylion hyn dim ond yn cael eu defnyddio i gysylltu â chyflenwyr cymorth ynghylch eu gweithgareddau o ran gwneud ceisiadau am y contractau a restrir isod.*

*Contract Cytundeb Fframwaith*
*DU-Caerdydd: Gwasanaethau glanhau*

Mae ein hymateb i'ch cwestiynau wedi'i nodi isod.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

1. *Cyflenwyr a wnaeth gais i gael eu cynnwys ym mhob un o'r fframweithiau/contractau isod gan nodi a fu eu holiaduron cyn-gymhwyso yn llwyddiannus/aflwyddiannus ac a gawsant wahoddiad i dendro.**

Mae enwau'r cyflenwyr wedi'u nodi yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| A&R Cleaning Services | Appclean UK |
| Bespoke Cleaning Services Ltd | Churchill Contract Services Ltd |
| Clearview Cleaning Services (HFD) ltd | Crystal Cleaning Solutions |
| Diverse Commercial solutions | Dynamiq Cleaning Limited |
| G4S Facilities Management Services UK Limited | GBM Services Limited |
| Glen Cleaning Company Limited | Incentive FM Group Ltd |
| Kier Support Services (yn masnachu fel Kier Facilities Services) | Mitie Cleaning & Environmental Services |
| MSS Group Ltd | New Age Commercial Cleaning & Maintenance Ltd (yn masnachu fel New Age Security) |
| Norland Managed Services Limited | Ocean Group Holdings Limited |
| Opus 03 Ltd | Regent Office Care Ltd (yn masnachu fel A Regent Cleaning) |
| Sasse Traffic Services | Servest Group Limited |
| Smart Clean | Solo Service Group |
| Supacleen Limited | Superclean Services Wothorpe Limited |
| TC Facilities Management Ltd (TC Cleaning Services yn flaenorol) | Total Support Services (TSS) |
| Ultima Cleaning Ltd | Vinci Facilities |

2. *Gwerthoedd contract pob fframwaith/contract (ac unrhyw is-lot), hyd yma yn ystod y flwyddyn*

Gwerth y contract yw tua £1.3 miliwn.

3. *Dyddiad cychwyn a hyd y fframwaith*

Cyfnod cychwynnol y contract yw 04/11/2013 hyd at 03/11/2017.

4. *A oes cymal i ymestyn y fframwaith/contract ac, os felly, beth yw hyd yr estyniad?*

Bydd y contract yn cael ei ymestyn am resymau gweithredol tan 15/06/2018.

5. *A wnaed penderfyniad eto ynghylch ymestyn neu adnewyddu'r fframwaith(fframweithiau)/contract(au) ai peidio?*

Gweler yr ateb i gwestiwn 4 uchod.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF